

14.03.2023

Annwyl Riant/Warcheidwad

Paris 2023 – Mawrth 31^{ain} i Ebrill 3^{ydd}

Fydd hi ddim yn hir cyn i ni fynd ar y bws i Baris. Yr unig beth nad ydym wedi ei drefnu yw'r tywydd. Fel arfer mae Paris yn union yr un fath â Phrydain ar yr adeg hon o'r flwyddyn! Dyma'r manylion terfynol:

Amseroedd:

Gadael: Ysgol Aberconwy am **1.00yb Ddydd Gwener, Mawrth 31^{ain}**. Orlau mân bore Gwener!!!!
Cofiwch gyrraedd tua 12.45yb fel y gallwn adael yn brydlon!
Llong: P & O Ferries: Dover - Calais
Cyrraedd: Paris am 5.30yp
Dychwelyd: Dylem gyrraedd yn ôl i Ysgol Aberconwy tua **hanner nos ar Ddydd Llun, Ebrill 3^{ydd}**

Cofiwch sicrhau bod eich plentyn yn cyrraedd yr ysgol **yn brydlon**. Gwnewch yn siŵr eich bod chi yno i gasglu'ch plentyn ar yr amser priodol ar y daith yn ôl. Os ydym yn hwyr, bydd myfyrwyr yn cael cyfle i ffonio adref.

Gwibdeithiau:

Dydd Gwener, Mawrth 31^{ain} 2023:

Adloniant Gyda'r Hwyr yn y Ganolfan

Dydd Sadwrn, Ebrill 1^{af} 2023:

Bore: Eiffel Tower
Prynhawn: Bateaux Parisiens / Champs Elysées
Gyda'r Hwyr: Adloniant yn y Ganolfan



Dydd Sul, Ebrill 2^{il} 2023:

Disneyland Paris Trwy'r Dydd – Parc Disneyland a Pharc Walt Disney Studios.
Adloniant Gyda'r Hwyr yn y Ganolfan

Dillad: Byddwch yn barod ar gyfer pob tywydd. Mae cot gynnes yn hanfodol. Dylai fod gan eich mab/merch esgidiau call (byddwn yn cerdded llawer) a dillad glaw.

Bagiau: Rhaid i bob myfyriwr allu cario eu bagiau eu hunain. Dylai un cês bach a bag ar gyfer y bws fod yn ddigon. Bydd labeli bagiau yn cael eu darparu.

Meddyginiaethau: Os bydd unrhyw fyfyrwr yn cymryd moddion neu ag alergedd i unrhyw beth neu os oes ganddynt unrhyw anghenion meddygol penodol, rhwch wybod i ni ar unwaith (os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes). Os ydych yn gwybod bod eich plentyn yn mynd yn sâl wrth deithio, rhwch y tabledi salwch teithio priodol iddo/iddi.

Tollau: Mae rheoliadau tollau yn llym iawn i bobl sy'n dychwelyd i Brydain. Fe'ch hatgoffir na chaniateir i unrhyw blentyn dan 17 oed ddod ag unrhyw alcohol neu dybaco trwy'r tollau, hyd yn oed os yw'n anrheg. Bydd yn ofynnol i bob myfyriwr gwblhau Ffurflen Datganiad Tollau tra yn Ffrainc, cyn inni ddychwelyd i Brydain. Rhaid i'ch plentyn fod yn barod i gyflwyno eu pasbort unigol yn yr ardal dollau. Anfonwch basbort eich plentyn i'r ysgol yn ystod yr wythnosau nesaf fel y gallwn fod yn siŵr bod gan bob myfyriwr basbort pan fyddwn yn gadael. Bydd y rhain yn cael eu cadw mewn man diogel a'u rhoi i'ch plentyn ar y bws cyn i ni gyrraedd yr ardal dollau.

Bwyd: Bydd prydau bwyd yn cael eu cynnwys ac eithrio ar y daith allan. Dylai myfyrwyr felly ddod â rhyw fath o becyn 'cinio/brecwast'. Nid yw bwyd 'sothach' a diod pop yn syniad da gan eu bod yn aml yn arwain at salwch teithio. Gwnewch yn siŵr fod gan eich plentyn ddigon o Ewros i brynu diodydd a byrbrydau yn y gwesty a digon o arian Prydeinig ar gyfer y daith yno ac yn ôl gan y byddwn yn stopio mewn gorsafoedd gwasanaeth trwy gydol ein taith. NID ydym yn argymhell newid arian ar y llong gan fod eu cyfraddau cyfnewid yn tueddu i fod yn wael. Rydym yn eich cyngori i brynu eich Ewros ymlaen llaw ac yn awgrymu bod y myfyrwyr yn dod ag uchafswm o £150 (cyfuniad o bunnoedd ac Ewros).

Siopa: Cofiwch atgoffa eich plentyn bod siopa yn Ffrainc yn union yr un fath ag y mae yn y wlad hon. Dylent fod yn ofalus gyda'u harian a chymharu prisiau. Gall diodydd yn Ffrainc fod yn ddrud, yn enwedig mewn caffis. Y llety, fel arfer, yw'r lle rhataf i brynu ac mae siop losin/swfenirs ar y safle. Ni chaiff myfyrwyr o dan 17 oed brynu alcohol, ac ni chaiff myfyrwyr o dan 16 oed brynu sigaréts neu e-sigaréts. Nid yw'r ffaith bod rhai pobl yn torri'r gyfraith hon yn ei gwneud yn gyfreithlon. Bydd yn rhaid i fyfyrwyr sy'n torri cyfreithiau o'r fath wynebu achos cyfreithiol ac efallai y gofynnir iddynt ddychwelyd i Brydain ar y llong nesaf sydd ar gael. Byddai'n rhaid i'w rhieni gwrdd â nhw ar yr ochr arall.

ARGYFWNG: Dim ond mewn argyfwng cysylltwch â:

- a) Miss Janette Hughes - 07815955102
- b) Mr I Gerrard – Pennaeth – 07789442349

Ein cyfeiriad yn Ffrainc yw:

Château de Grande Romaine
Lésigny
77150 France

Pwysleisiwn mai at **ddefnydd brys yn unig** y mae'r rhain. Peidiwch â'u defnyddio at unrhyw ddiben arall. Gellir yn hawdd drefnu i'r myfyrwyr ffonio o Ffrainc; mae ffôn cyhoeddus ar gael i'w ddefnyddio yn y llety.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, mae croeso i chi gysylltu â ni yn yr ysgol neu anfon e-bost ataf yn uniongyrchol: Nia.williams@aberconwy.conwy.sch.uk

Yn gywir iawn,

Nia Williams
Trefnydd y Daith/Ieithoedd Rhyngwladol